

Diweddariad am y brechlyn

Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

25 Hydref 2021 Rhifyn 41

CYNNYDD WYTHNOSOL 18 Hydref - 24 HYDREF 2021

Hoffem ddiolch i holl drigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd wedi manteisio ar y cynnig brechiad Covid-19.

Ers cychwyn y rhaglen frechu COVID-19 ar 8 Rhagfyr 2020, mae'r Tîm Brechu bellach wedi brechu cyfanswm o 956,495 o bobl rhag Covid-19.

Mae preswylwyr o 77 o gartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn o fewn ardal y Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig y brechiad atgyfnerthu. Rydym wedi brechu 16,437 o bobl 80 oed a hŷn, a dros 24,051 o staff y rheng flaen a staff gofal cymdeithasol.

Paratoi am eich apwyntiad:

Os byddwch yn derbyn apwyntiad, gwnewch bopeth o fewn eich gallu i fynychu'r apwyntiad cyntaf a gewch gan ein bod yn brechu miloedd o bobl bob wythnos. Bydd hyn yn helpu'r Rhaglen Brechu Torfol i gyflwyno'r rhaglen atgyfnerthu i unigolion cymwys cyn gynted â phosibl.

12 i 15 oed

Gall Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gadarnhau bod pob plentyn 12 i 15 oed wedi cael cynnig apwyntiad Brechiad Covid-19 mewn clinig erbyn 26 Hydref 2021.

Os nad ydych wedi gallu mynychu apwyntiad, cysylltwch â'r tîm trefnu apwyntiadau ar 0300 303 1373 i drefnu apwyntiad ar gyfer eich dos cyntaf, neu gallwch fynychu'r sesiwn galw heibio sy'n benodol ar gyfer plant 12-15 oed ar ddydd Sul, 31 Hydref

**Clinig Brechu COVID-19 i blant 12-15 oed YN UNIG
Os nad ydych rhwng 12-15 oed, a heb gael eich brechiad Covid-19 cyntaf, dewch draw i'r clinig galw heibio. Nid oes rhaid trefnu apwyntiad. Dewch ag ID.**

Dydd Sul 31 Hydref, 11am – 3:30pm

Stadiwm Cwmbrân
Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 3YS

Canolfan Hamdden Casnewydd
1 Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH

Imiwnoataliedig ac angen trydydd dos sylfaenol?

Os oeddech chi'n ddifrifol imiwnoataliedig yn ystod eich apwyntiad dos cyntaf neu ail ddos o ganlyniad i'ch cyflwr neu feddyginiaeth, efallai bod angen i chi gael **trydydd dos sylfaenol** cyn cael unrhyw frechiad atgyfnerthu. Os ydych yn teimlo bod hyn yn berthnasol i chi, cwblhewch y ffurflen isod gan sicrhau eich bod yn nodi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Ar ôl i ni dderbyn y wybodaeth, byddwn yn cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich sefyllfa a byddwn yn cysylltu'n ôl â chi.

<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/imiwnoataliedig-ac-angen-trydydd-dos-cynradd/>

Am ragor o wybodaeth ynghylch y meinu prawf ar gyfle cael trydydd dos, cliciwch ar y ddolen isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination>

WYTHNOS I DDOD 1 TACHWEDD – 7 TACHWEDD 2021

Heb gael eich dos cyntaf NEU'n dal i ddisgwyl eich ail ddos o'r brechiad COVID-19?

Os nad ydych wedi cael eich dos cyntaf, neu os ydych yn disgwyl eich ail ddos o'r brechiad COVID-19 o hyd, cwblhewch y ffurflen isod gan sicrhau eich bod yn nodi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Ar ôl i ni dderbyn y wybodaeth, byddwn yn gwirio eich cofnod brechiadau blaenorol, ac os yw'n gywir, byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich apwyntiad o fewn 72 awr. **Noder, rhaid i chi fod wedi cael eich dos cyntaf o leiaf wyth wythnos cyn cael yr ail ddos**

<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/dal-heb-dderbyn-dos-gyntaf-neu-dal-i-ddisgwyl-eich-ail-ddos-brechiad-covid-19/>

Wedi cael eich ail ddos cyn, neu ar, 31 Mawrth 2021, ac yn disgwyl manylion eich apwyntiad atgyfnerthu o hyd?

Os cawsoch eich ail ddos o'r brechiad COVID-19 cyn, neu ar, 31 Mawrth 2021, ac yn disgwyl cynnig apwyntiad atgyfnerthu o hyd, cwblhewch y ffurflen isod gan sicrhau eich bod yn nodi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Ar ôl i ni dderbyn y wybodaeth, byddwn yn gwirio eich cofnod brechiadau blaenorol a chymhwystra ar gyfer y brechiad atgyfnerthu, ac os ydych yn gymwys ar gyfer y brechiad, bydd ein tîm yn cysylltu â chi.

<https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/yn-aros-am-fanylion-eich-apwyntiad-brechiad-atgyfnerthu/>

Galw ar fenywod beichiog:

Gweler y cyngor diweddaraf ar feichiogrwydd a'r Brechiad Covid-19 drwy'r dolenni canlynol:

<https://icc.gig.cymru/newyddion1/manteision-brechlyn-coronafeirws-yn-llawer-mwy-nar-risgiau/>

<https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/gwybodaeth-i-gleifion/brechu-covid-19-a-beichiogrwydd/>

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael eu heintio â COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg isel o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach mewn beichiogrwydd ac ymhliith menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu eich apwyntiad am frechlyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rcog.org.uk/covid-vaccine



Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn <https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section-70608>

Neu drwy ffonio **0300 303 5667**

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i: <https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlyn/>